

W 935. 5. 218

GWAEDDOLEF

UWCHBEN BRENHIN-LLYS ANGEU,

AR OL

JANE WILLIAMS

A

MARGARET JENKINS,

O DREFFLEMIN,

SEF Y FERCH A'R FAM,

AC AM

MR. EBENEZER JONES,

O BONT-Y-POOL.



*San Thomas Williams
Bethesda's Fm*

No more the Preacher, eloquent and wise,
Will charm our ears, delight our gazing eyes.

“Câr a chyfaill a yraist ymaith oddiwrthyf, a'm
cydnabod i dywyllwch.”

“Lover and friend hast thou put far from me, and
my acquaintance into darkness.—Psal. 88. 18.

O! Fyd, O! fyd, pa beth wna'i yma'n byw?
Fe ddarfus pleser, pleser o bob math;
Ddoe'r oeddwn mewn rhyw faith Baradwys dëg,
Ond heddyw, trow'd fi ma's o honi'n llwyr;
Mae dà, mae dyn, mae'r cyfan is yr haul,
Yn gryno wedi rho'i ffarwel imi;
Pwy ardal mwy o'r byd wna'n artref im' ?
B'le byddai byw? pwy gyfaill gaf i mwy?

CAERDYDD: ARGRAFFWYD GAN W. BIRD.

1830.

I'w roddi am ddim i berthynasau ac aml gyfeillion y meirw.

15136

X205 317137

MARWOLAETH

JANE WILLIAMS.



❶! FYD, O fyd! twyllodrus dēngar,
Gwae fi arnat roddi mryd;
Fel y clywais, felly gwelais,
Siomedigaeth wyt ei gyd;
Gwelais lwyddiant, gwelais hawddfyd,
Cof o'r dyddiau, braf eu bri;
Wedi hyny ar fy heddwch,
Chwer'der chwerw ddaeth i mi.

2. Pan oedd haul uwchben fy mhabel,
Haner dydd, fe drodd y rhod;
Yn lle'r llwyddiant a'r llawenydd,
Daeth y tristwch mwya erio'd;
Yfed gwŷn o bob hyfrydwch,
Yn y dyddiau gynt a gawn;
Yn lle hyny 'does ond bustl,
Yn fy nghwpan heddyw'n llawn.

3. O! fy Arglwydd, ble'r edrychaf?
'Rwy'n troi ngolwg atat ti;
Cofia ngofid, cofia mlinder,
Yn nydd trallod, cofia fi;
Galar hiraeth, a phob tristwch,
Sydd yn gymmysg trwyddwy' gyd;
Dâ a dyn, a phob peth arall,
A'm gadawsant oll ynghyd.

4. Marw *Jiny!** prin 'rwy'n credu,
Farw hon, nad breuddwyd yw;
Mi freuddwyda liw dydd goleu,
Fod f'anwyl-ddyn etto'n fyw;
Marw wnaeth hi—marw'n sicr,
Draw nac yma ni thâl mwy,
I mi edrych am ei gweled,
Ac er hyny edrych wy'.

* *Bu farw*
Hydref 24,
1827, yn 68
o'i hoed.

5. Yn y tŷ mi fydda'n eistedd,
 Heb gymdeithas unrhyw ddyn ;
 B'le mae *Jiny* ? yw'r ymholi,
 A fydd gennyf, wrth fy hun ;
 Yn y cwrdd neu yn y farchnad,
 B'le mae'i cy'd cyn atta'i dd'od ?
 B'le mae'n aros, b'le mae'n trigo ?
 Nid fel hyn'r arferai fod.

6. Tua'r drws mi dro fy llygaid,
 Disgwyl am ei gwel'd hi'n d'od,
 Ac fe ddywed fy nychymmyg,
 'Mod i'n clywed trwst ei thro'd ;
 A fy meddwl yn y funud,
 Yn ei ffrwst a rêd i fwrdd,
 I'w chyfarfod—yn ei lle-hi
 Siomedigaeth ddaw i'm cwrdd.

7. Ac er cymmaint mae nych'mygon,
 Wedi'm siomi o bryd i bryd,
 Mi ddych'myga'r un peth eilwaith,
 'Rwy'n dych'mygu bron o hyd,
 'Mod i naill a'i gwel'd neu chlywed,
 'Rhyd y tŷ, neu wrth y tân,
 Weithiau'n siarad, weithiau'n gwenu,
 Weithiau'n canu fel o'r bla'n.

8. Ffowch ddych'mygon sy yn gwneuthur,
 Im' freuddwydio ar ddihun,
 Weithiau yma, weithiau accw,
 'Mod i'n gwel'd fy anwyl ddyn ;
 Pridd yw'r tafod, pridd yw'r fynwes,
 Pridd yw'r llygaid, pridd yw'r llaw,
 Pridd, a dim ond pridd, yw *Jiny*,
 Heddyw wrth *Bethesda* draw.

9. Trwm ac isel iawn mae'n debyg,
 Fydd fy meddwl innau mwy,
 Gweled oriau'r dydd yn hirfaith,
 Gweled oriau'r nos yn hŵy ;

Chwant am wel'd y dydd yn caudad
 I'r *Gorllewin*, maes o law,
 Chwant am weled gwawr y boreu,
 Dros fynyddau'r *Dwyrain* draw.

10. Nid yw gwel'd y *Gwanwyn* hawddgar,
Mai a'i fwynder nid yw'n awr,
 'Ronyn mwy hyfrydol imi,
 Nag yw *Rhagfyr* oer ei wawr;
 Mae pob tymor, mae pob gwrthddrych,
 Trwy'r gre'digaeth fawr i gyd,
 Wedi colli eu holl harddwch,
 A'u hyfrydwch oll ynghyd.

11. Cyn b'o i'r *Uchedydd* godi,
 Yn y boreu at ei gân,
 Minnau fyddaf wedi dechreu,
 Cwyno oriau hir o'i fla'n;
 A phan wban bo'r *Ddylluan*,
 Yn y nos yn oer ei chri,
 Minnau fydda'n ddigon effro,
 Yn cyd-gwyno gydâ hi.

12. Mi af bellach i *Bethesda*,
 Nid yn llawen, ond yn lla's,
 Dan alaru mi edrychaf,
 Yno ar y twmpath glâs;
 A chan bwys iselder yspryd,
 Yno'n llethu'm meddwl gwan,
 Nes bwy'n methu er pob cynnyg,
 A llefaru yn y fan.



MARWOLAETH

MARGARET JENKINS.

A RAID i groesau? rhaid mae'n debyg,
 Fy nilyn ar y ddaear hon,
 Dyfnder alw ar ddyfnder arall,
 Fyth i lifo dros fy mron;

Colli *Jiny*, p'am na bu'sai ?
 Hyny'n ddigon imi, P'am ?
 Heb raid eilwaith, gydâ hyny ?
 Golli'r Ferch ar ol y Fâm.

2. Fe ddaeth angeu i *Gwrt Trefflemin*,
 Daeth, fe ddaeth y gelyn câs ;
 Ffaelodd meddyg, ffaelodd moddion,
 Yrru'r gelyn brwnt i ma's ;
 Ni wnaeth pump o blant yn llefain,
 " Dos ymaith, dos, o angeu llym ;"
 Ni wnaeth gweddi, ni wnaeth wŷlo,
 Ni wnaeth un peth dyccio dim.

3. Minnau rhwng y gwelydd llwydon,
 Heb un ysbryd yn dra syn,
 Dan lesmeirio mi ofynais,
 O ! fy ngelyn, beth yw hyn ?
 A oes gwraig na merch yn unlle ?
 Ymhlith miloedd, a oes un ?
 Wna yn aberth i ti heddyw,
 Ond fy unig ferch fy hun ?

4. Yn dra sarug fe'm hatebodd,
 A'i wynebpryd glâswyn hŷ,
 'Rwy'n awr a nwylo oer'on arni,
 Bron ei lladd, ac felly bu.
 Fflem a lanwodd y pibellau,
 Oedd yn dwyn y gwynt i'r lan,
 Daccw'r bywyd yn ymadael,* * *Bu farw Mawrth*
 Gydâ rhyw ochenaid wan. 12, 1829, yn 37 o'i hoed.

5. Mae'i gwedd o hyd o flaen fy llygaid,
 Yn y cyfwng pan oedd hi,
 A swm ei llais hi ar fy nghlustiau,
 Yn galw'n isel arnaf fi ;
 " *Fy nhad, fy nhad, rho'wch help os gellwch,*
 " *Os gallwch, helpwch, dyma'r pryd,*
 " *Mae nghalon wan yn awr yn pallu,*
 " *A nghnawd i'n crynu oll i gyd.*"

6. Nid oedd gennyf, O! na bu'sai,
 Gennyf gymmorth i'w ei roi,
 Dim ond delwi wrth wel'd dyfroedd,
 Oer marwolaeth yn crynhoi ;
 A dymuniad pendroedig,
 Yn fy mryd na bu'sai'r Ne',
 Yn fy rhoi, neu roi rhyw estron,
 Pell i farw yn ei lle.

7. *Pegy* ei hunan oedd raid fyned,
 Trwy'r llifeiriant, myn'd oedd raid,
 Heb na thad, na phlant, na brodyr,
 Yn yr afon iddi'n blaid ;
 Ond mae cariad yn gobeithio,
 Nid gobeithio heb un sail,
 Pan oedd cymmorth dyn yn darfod,
 Fod ei phwys ar Adda'r ail.

8. Rhyw faint llai na deugain munud,
 Cyn rhoi fynu'r ola' ffun,
 Pan yn sefyll yn ei hymyl,
 Un o'i thylwyth hi ei hun ;
 Gofynai iddi, Beth a geisi ?
 'Dwy'n 'mofyn dim, atebai hi ;
 'Dwyf finnau'n 'mofyn dim, 'be hithau,
 " Dim ond gwlad sydd well i mi."

9. Pan y rho'w'd ei *mham* i orwedd,
 Yn y ddaear fyddar oer,
 Bach meddyliais coll'wn *Pegy*,
 Cyn pen llai na deunaw lloer ;
 'Does gyssur imi wedi ado,
 Ond gobeithio d'ont yn un,
 Yn eu hol o dir y gelyn,
 I'w eu hyfryd fro eu hun.

10. Daccw bump o blant ymddifad,
 Heb na *thad* na *mam* yn fyw,
 Wedi eu troi i gefnfôr tonnog,
 Neb i sefyll wrth y llyw,

F'anghrediniaeth innau'n haeru,
Haeru'n gadarn, hyny ddaw,
Bydd y llestr wedi myned
Yn llong-ddrylliad maes o law.

11. Am ei phlant, ofala *Pegy*,
Bellach byth am danynt hwy,
Eu darostwng neu'i dyrchafu,
Gaffont, ni waeth ganthi mwy;
Minnau bwysaf ar Ragluniaeth,
Y gofala hi bob cam,
Am fy wron yn amgenach,
Nag y galle *Tad a Mam*.

12. Draw mi wela'r dydd yn gwawrio,
Ar ddû-dywyll nos y bedd,
Draw mi wela'r tir dymunol,
Gwlad yr hawddfyd, gwlad yr hedd,
Yn y wlad dda hyfryd hyny,
'Rwy'n hyderu'n mhlith y llu,
Gwrdd a gweled *Sian a Phegy*,
Yn y fro nefolaidd fry.

MARWOLAETH

MR. EBENEZER JONES,
O BONT-Y-POOL.

MYNWY, Mynwy, gwna alarnad,
Dan arwyddion gwg y Ne',
Tyn o'th gylch y dillad gwychion,
Rho sachliain yn eu lle;
Oni wyddoch, trwm yw adrodd,
Trwy farwol glwyfau'r angeu glâs,
I wr mawr y'myddin Israel,
Syrthio heddyw ar y ma's.

2. Marw *Eben*,* marw'n sicr, * *Bu farw Ion-
Ddyn hawddgara dan y Ne',* *awr 1829, yn 61*
Prin 'rwy'n credu gwelai etto, *o'i oed.*
Ddyn hawddgared ag oedd E';

O flaen torf, â'r *Bibl* sanctaidd
 Yn ei law'n cyhoeddi ma's,
 I golledig fyd truenus,
 Anchwiliadwy olud gras.

3. Pan elo'r son trwy wersyll Israel,
 Farw'n sicr y fath ddyn,
 Ag oedd *Eben* yn y frwydr,
 Y fyddin fawr i gyd a grŷn ;
 Rhag clywo Merched y Philistiaid,
 A'u gwneud yn llawen ymhob lle,
 Byddwch ddystaw, nac adroddwch,
 Air yn Gath ei farw 'fe.

4. Clywais ef ar amser hyfryd,
 Y'moreuddydd braf ei oes,
 Yn pregethu, rhaid im' weithio,
 Tra paro'r dydd, cyn delo'r nos ;
 A llafurus y llafuriodd,
 Yn y winllan flwyddau maith,
 Nes i dywyll nos marwolaeth,
 Osod terfyn ar ei waith.

5. Angeu creulon, didrugaredd,
 Ail i Joab, ddyn diras,
 P'odd anturiaist daro *Abner* ?
 Un o'r milwyr goreu ma's ;
 Am ei waed, a gwaed ei frodyr,
 Fe ddaw dial arnat, daw,
 Mewn trag'wyddol fuddugoliaeth,
 Ti gai'th lyngcu maes o law.

6. Dros fynyddau cribog Cymru,
 Lawer gwaith bu'n dyrcha'i lef,
 Nes b'ai'r cwmmydd yn rhoi adsain,
 Idd ei lais pereiddiaf ef ;
 Bryste, Llundain,—gwlad y Saeson,
 Ga'dd ei glywed lawer pryd,
 Yn datgan haeddiant *Aberth Iesu*,
 Barn i dd'od a diwedd byd.

7. Fe'i dyrchafwyd gan y Nefoedd,
 I'r lle uchaf dan y Nen,
 Ei gwnu o gorlanau'r defaid,
 I fugeilia'r Eglwys wen ;
 Mi obeithiais y ca'i einioes,
 Ynte'i hestyn cy'd ymla'n,
 Nes cyrhaeddai gant o flwyddau,
 I fugeilio'r defaid mân.

8. Ond nid felly trefnodd arfaeth,
 Dwyfol arfaeth bia'r dydd,
 Fel 'sgrifenwyd ar y memrwn,
 Felly mae ac felly bydd ;
 Ni wna gweddi, ni wna wyllo,
 Ni wna unpeth ar y don,
 Altro dim na newid mymrwn,
 Ar fwriadau'r arfaeth hon.

9. Er ei gystudd fisoedd hirion,
 Er i'w ddolur ledu'n mhell,
 Byddai gobaith yn dweyd ini,
 Er y cwbl y d'oi'n well ;
 Ond yn awr fe ddarfu gobaith,
 Darfu gobaith oll yn lân,
 Am ei glywed mewn un *pulpit*,
 Yn pregethu fel o'r bla'n.

10. Daccw'r werin yn ymgasglu,
 A'u hysbrydoedd oll yn drwm,
 Tu a Chapel *Ebenezer*,
 Beth yw'r siarad? hyn yw'r swm,
 Mae'r Philistiaid yn ein bygwth,
 Pwy yn myddin Israel, pwy ?
 Megis *Eben*, a wyneba,
 Ar eu cawr anferthol hwy ?

11. Mi feddyliais, ond nid meddwl
 Dyn, yw meddwl mawr y Nef,
 Pôd fy ngogwydd i'r *Gorllewin*,
 Beth o raddau nes nag ef ;

Yr oedd e'n oleuach seren,
 Uwch i'r lan na mi yn lân,
 Etto'n groes i bob disgwyliad,
 Fe fachludodd o fy mla'n.

12. Mynwy, cofia,—dylit gofio,
 Fod gennyt hawl i hyn o glod,
 I ti roi dedwydd enedigaeth,
 I rai o'r dynion goreu erio'd,
*Wroth, a Chradoc, Jones, a Morgan,**
 Aeth allan ar y wawr-ddydd glâs,
 Am draws Cymru i gyhoeddi,
 'Fengyl iachadwriaeth gras.

13. Pan oeddent hwy, y sêr boreuol,
 Gododd gynt i ledio'r wawr,
 Wedi myn'd er's blwyddau lawer,
 Islaw'r terfyn gylch i lawr;
Eben ddaeth yn gwmmwl goleu,
 Llawn o fywyd, llawn o dân,
 Nes gwneud holl derfynau Mynwy,
 Yn oleuach nag o'r bla'n.

* Dywedir eni Mr. Wroth yn mhlwyf Llanelen, gerllaw y Fenni; iddo gael ei urddo yn offeiriad gan Esgob Llandaff, yn y flwyddyn 1620: iddo gael eglwys Llanfaches trwy Syr William Lewis, o'r Fan, gerllaw Caerphili: iddo gael ei droi o'r eglwys am wrthod darllen Llyfr y Chwareuddiaethau: iddo gasglu a ffurfio Eglwys Independaidd yn 1639, ac mai hon oedd yr eglwys ymneillduol gyntaf yn Nghymru.

Dywedir eni Walter Cradoc yn mhlwyf Llangwm: iddo gael ei droedigaeth dan weinidogaeth Mr. Wroth: iddo droi allan yn weinidog enwog: dywedir ei fod yn Gurad i Mr. Erbury, yn Eglwys St. Mary, yn Nghaerdydd: i Mr. Erbury a Mr. Cradoc gael eu troi o'r eglwys ar yr un pryd, ac am yr un achos a Mr. Wroth.

Yr hynod Mr. Edmund Jones a anwyd yn mhlwyf Aberystwyth, yn 1702. Dywedir iddo drafaelu perwar can milldir i bregethu, pan oedd yn bedwar ugain oed.

Mr. Morgan Jones a ymneillduodd oddiwrth Rowlands a Harris: corpholodd Eglwys o Independaidd mewn lle a elwir y Neuadd, yn mhlwyf y Pant-têg, (yn awr y New Inn,) ordeiniwyd ef Dydd Llun Sulgwyn, 1759, trwy gyfodiad dwylaw yr Henuriaid; ffordd anghyffredin, ond nid mor ddisail ag y tybia rhai.

14. Wedi traethu'r genadwri,
 Roddwyd iddo gan y Nef,
 Cerbyd Israel a'i farchogion,
 Yn ei ol a'i cym'rodd ef;
 Rhan o hono trwy'r cymmylau,
 'Hedodd fry, ryw bellder mawr;
 Rhan o hono wrth hen Gapel
Ebenezer ro'w'd i lawr.

15. Nid oes gennyf barch i'w roddi,
 Mwy i *Eben* dan y Nef,
 Ond gwneud cân, os gallai bara,
 Gofio byth am dano ef;
 Pe b'ai ngallu fel mae ngwyllys,
 Rho'wn ei hanes maes o law,
 Fel y byddai Sais a Chymro,
 Son am dano'r oes a ddaw.

16. Pwy sy'n fyw o'm cyd-oedranau?
 Hawdd trwy Fynwy rifo rhai'n,
Lewis onest o'r *Cas Newydd*,
Dafydd ffyddlon yn *Mhen Main*,
 Sydd yn aros yn yr unlle,
 Ag egwydydd am ei dra'd,
 Gan swyddogion dûon aneu,
 Faidd e fyn'd i dre na gwlad.

17. Mae fy oedran a phob tristwch,
 Yn fy nghymell i roi nghân,
 'Nawr i fynu, heb wneud cynnyg,
 Symud pellach gam ymla'n;
 'Rwyf bron myned megis *Eben*,
 O gyffiniau'r byd ymhell,
 Lle gobeithio cawn gyfarfod,
 Mewn cymdeithas lawer gwell.